Visit Wales
Croeso Cymru

Archwilio a chymeradwyo
“LLETY OES A FU”

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Archwilio a chymeradwyo
“LLETY OES A FU”

Er bod cynlluniau archwilio er sicrwydd i gwsmeriad wedi bod yn gweithredu ers cyfnod hir ar gyfer y mathau arferol o lety fel bythynnod hunan ddarpar, daeth i’r amlwg y gall Cymru hefyd gynnig mathau llai traddodiadol o lety neu lety sy’n arferol i’r gwahanol, a bod mwy o bobl yn ystyried y rhain i brofi gwyliau gwahanol.

Mae gan y math yma o lety hunan ddarpar statws “rhestredig” neu debyg, ac yn methu bodloni safonau isafswm cynllun seren Croeso Cymru ar gyfer hunan ddarpar on mae gan ymwelwyr hawl er hynny i ddisgwyl eu bod yn cyrraedd safon penodol. O ganlyniad, bydd yn rhaid i unrhyw un sy’n dymuno cael cydnabyddiaeth Croeso Cymru neu i hyrwyddo’r math yma o lety wneud cais blynyddol am archwiliad a thalu amdano a bodloni’r meini prawf canlynol. Rhoddir y ddifiniad llawn o’r math o lety y gellir ei archwilio o dan y cynllun hwn o dan y penawd perthnasol.

MEINI PRAWF GOFYNNOL CROESO CYMRU AR GYFER "LLETY OES A FU"

DIFFINIAD

"Llety ar osod mewn adeiladau sydd naill ai o ddiddordeb hanesyddol neu ddiwylliannol ac sydd â statws "rhestredig". Ni all y math hwn o lety roi'r lefel o gyfleusterau neu wasanaethau sy'n gysylltiedig â llety mwy modern/prif ffrwd ar gyfer twristiaid oherwydd eu statws rhestredig ac o'r herwydd, dim ond ar gyfer hyn a hyn o amser yn ystod blwyddyn galendr y maent ar gael i bobl gael aros ynddynt."

Er bod y llety yn un sylfaenol o ran peidio â chynnig ystafelloedd ymolchi, toiledau sy'n fflysio, toiledau mewnol, dŵr o'r prif dap, trydan etc bydd y llety'n ateb y diben, yn lân, wedi'i gynnal yn dda ac yn bodloni'r holl rwymedigaethau statudol perthnasol, cyfredol ar gyfer cydymffurfio â'r gofynion Iechyd a Diogelwch.

Hanfod llety o'r dull hwn yw'r elfen o gamu'n ôl mewn amser a phrofi ffordd o fyw sy'n wahanol iawn i un y byd modern, oes a fu, oes a anghofiwyd.

Bydd Croeso Cymru yn cadw'r hawl bob amser ac yn ôl ei ddisgresiwn ei hun, i benderfynu ai'r safon hon yw'r un briodol i'w defnyddio.

Y MEINI PRAWF GOFYNNOL AR GYFER YMUNO Â'R CYNLLUN

- Rhaid i'r gweithredwr/asiant sicrhau bod y llety'n cydymffurfio'n llawn â phob rhwymedigaeth a gofyniad cyfredol, statudol, perthnasol ar gyfer gosod.
- Bydd angen rhoi tystiolaeth o statws "rhestredig" gan ffynhonnell swyddogol i Croeso Cymru cyn iddo gael ei arolygu.
- Rhaid i'r gweithredwr/asiant ddisgrifio'r llety a'r cyfleusterau sydd ar gael yn deg a nodi'n glir pa gyfleusterau prif ffrwd nas darperir, ee dŵr poeth, nwy o'r prif gyflenwad.
- Rhaid llunio datganiad mynediad i'r anabl, ei ddiweddaru'n rheolaidd a'i roi i ymholwyr.
- Rhaid cael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol, dilys.
- Mae'n ofynnol i bawb sy'n cymryd rhan barchu Côd Ymddygiad Croeso Cymru.
- Rhaid i'r person cyfrifol gynnal asesiad risg tân gan a gweithredu ar y canfyddiadau er mwyn lleihau neu ddileu'r risg o dân, wedyn adolygu'r asesiad yn rheolaidd, er mwyn gwneud newidiadau lle bo angen.
- Rhaid bod gan y llety Larwm Fwg a synhwyrydd Carbon Monocsid (lle bo'n briodol) sy'n gweithio.
- Rhaid rhoi manylion ar gyfer galw am gymorth, ddydd a nos, os bydd argyfwng, a rhaid eu harddangos yn glir i'r gwesteion (ee, manylion y perchennog, meddyg, deintydd, y gwasanaethau brys (hy 999) ynghyd â lleoliad y pwynt cyswllt/ffôn agosaf). Dylid darparu pecyn cymorth cyntaf ar y safle.

Y LLETY

- Rhaid i'r llety ac unrhyw gyfleusterau o ran toiledau/ ystafelloedd ymolchi / cyfleusterau coginio fod yn gadarn o ran yr adeilad, ac wedi'u cynnal yn dda yn fewnol ac yn allanol.
- Rhaid cynnal pob rhan o'r tir, y gerddi a'r meysydd parcio'n dda. Ni ddylai fod unrhyw beryglon baglu ar y llwybrau na'r meysydd parcio.
- Dylid glanhau pob rhan o'r eiddo yn drylwyr yn rheolaidd.
- Rhaid darparu dulliau gwresogi.
- Rhaid i ffenestri ac unrhyw ffenestri to weithio (agor a chau).
- Dylai pob ffenestr ac unrhyw ffenestri to gael gorchudd tywyll neu lenni.
- Dylid goleuo pob rhan er mwyn symud yn ddiogel. Dylid darparu golau argyfwng wrth gefn (hy tortsh).
- Rhaid cael cyflenwad o ddŵr yfed oer naill ai yn yr adeilad neu gerllaw iddo, sy'n cydymffurffio'n llwyr a holl ofynion perthnasol statudol, cyfredol ac yn y dyfodol.
- Rhaid arddangos y rhestr eiddo (gweler isod am restr yr offer gofynnol sydd ei angen).
- Lle storio yn y llety ar gyfer bwyd a bagiau.
- Rhaid darparu mannau cysgu penodol.
- Gwelyau sengl – o leiaf 183cm x 76cm / 6' x 2' 6". Gwelyau dwbl – o leiaf 183cm x 120cm / 6' x 4'.
- Rhaid i fatresi a chlustogau fod yn lân ac yn gadarn a rhaid gosod amddiffynwyr addas arnynt.
- Rhaid bod digon o ddillad gwely ar gael, hy tair blanced i bob gwely, neu un duvet â rhif tog priodol, a dwy glustog i bob person. Ar gyfer gosod llety yn ystod y gaeaf, ar ddiwedd neu ar ddechrau'r tymor, dylid cynyddu'r dillad gwely sydd ar gael. Rhaid i'r dillad gwely fod yn lân ac wedi caledu.
- Lle darperir cynfasau gwely, dylid sicrhau bod yna rai sbâr.
- Rhaid cael lle ar gyfer golchi offer coginio, platiau, cyllyll a ffyrc, etc, â chyflenwad o ddŵr oer rhedegog o leiaf.
- Rhaid darparu lle penodol ar gyfer coginio.
- Rhaid i'r holl offer coginio, os darperir (gan gynnwys barbiciws, ystofau nwy/ffwrnau etc) gael eu cynnal a'u cadw'n dda.
- Os na ddarperir unrhyw offer coginio sefydlog, rhaid darparu arwynebedd addas sydd ar lefel uwch er mwyn i westeion ddefnyddio'u hoffer coginio eu hunain y tu allan i'r llety.
- Rhaid darparu o leiaf un cyfleuster toiled a basn ymolchi (gan gynnwys sebon) ar gyfer pob 10 o westeion.
- Dylid darparu lolfa/lle eistedd penodol.

YR OFFER GOFYNNOL SYDD EI ANGEN ER MWYN BODLONI'R SAFON

Un i bob uned

Cynhwysydd Bara/Teisennau
Plât bara/Teisennau
Bwrdd Bara/ Torri
Cyllell fara
Dysgl fenyn
Ysgubell
Bwced
Cyllell garfio a fforc
Dysgl gaserol
Colandr
Compost/Bin ailgylchu
Set pupur a halen (2 ddarn)
Tynnwr corcyn/agorydd poteli
Ysgubwr carpedi (ar gael)
Mat drws
Padell lwch a brws
Hylifau glanhau nad ydynt yn niweidiol i'r amgylchedd (hylif golchi llestri etc)
Sleisydd pysgod
Ffrimpan
Dysgl ffrwythau
Crafell
Jwg (mesur)
Jwg (llaeth)
Tegell
Bin y gegin a chaead
Siswrn y gegin
Lletwad
Drych
Hambwrdd rhostio (lle bo'n briodol)
Piliwr tatws
Sgwriwr potiau/mop llestri
Sosbenni a chaeadau (bach, canolig a mawr)

Un i bob uned

Llwy
Bowlen Siwgr
Tebot
Agorydd tuniau
Hambwrdd
Cyllell lysiau (finiog)
Bowlen golchi llestri

Dau i bob uned

Blwch llwch (lle caniateir ysmygu)
Dwster
Bowlen gymysgu/basn
Llwy fwrdd

I bob person

Bowlen grawnfwyd
Cwpan wyau
2 x Fforc
2 x Cyllell
Myg
Plât (mawr a bach)
Llwy (pwdin a the)
Tymbler a gwydryn gwin

Yr ystafell wely

3 x blanced neu 1 duvet i bob gwely
2 x clustog i bob person
4 x teclyn hongian dillad i bob person

Yr ystafell ymolchi/Toiledau (lle bo'n briodol)

Brws toiledau
Papur toiled a theclyn i'w ddal

HYRWYDDO'R LLETY HWN

Unwaith y bydd Croeso Cymru wedi cynnal arolygiad a bod hyn wedi dangos bod yr holl feini prawf wedi'u bodloni, byddwch yn cael copi o adroddiad yr Aseswr a, maes o law, dystysgrif arddangos. Bydd gennych hawl i ddweud bod y llety'n perthyn i gategori "Llety Oes a Fu Croeso Cymru". Ni ddylid hyrwyddo'r llety trwy ddefnyddio unrhyw eiriad arall. Byddwn ni yn Croeso Cymru yn anfon y logo perthnasol atoch ar ffurf celfwaith electronig er mwyn i chi ei gynnwys ar eich holl lenyddiaeth hysbysebu a/neu'ch gwefan pe dymunech. Os byddwch yn hysbysebu yn unrhyw un o'n canllawiau neu yn unrhyw un o'r rheini a luniwyd gan eich Awdurdod Lleol, "Llety Oes a Fu Croeso Cymru" yw'r hyn y dylid ei ddefnyddio fel rhan o'ch hysbyseb.

MANYLION CYSWLLT

Os hoffech wneud cais am ymweliad ar gyfer gradd Seren neu drafod unrhyw fater perthnasol sy'n codi o gynnwys y canllaw hwn, cysylltwch â ni yn:

Adran Sicrhau Ansawdd
Croeso Cymru
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Rhodfa Padarn
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UR
Ffôn: 0300 062 2000
E-bost: quality.tourism@wales.gsi.gov.uk

Gallwch hefyd gael ffurflen gais am raddio, manylion ffioedd a fersiwn electronig o'r canllaw hwn drwy fynd i'n gwefan www.cymru.gov.uk/twristiaeth a chlicio ar 'Graddio'.